

Yn Cyflwyno Taith, rhaglen cyfnewidfa dysgu ryngwladol Cymru

Mae astudio, gwirfoddoli neu fynd ar leoliad gwaith dramor yn ehangu gorwelion pobl, yn ehangu eu sgiliau, ac yn dod â buddion i gymunedau a sefydliadau yma yng Nghymru.

Trwy raglen newydd Taith – rhaglen cyfnewidfa dysgu ryngwladol, ein nod yw rhoi cyfle i ddysgwyr o bob oed ac o bob cefndir ledled Cymru elwa ar y cyfleoedd hyn.

Mae Taith yn ymgorffori ymagwedd ryngwladol ym mhob lefel o'n system addysg. Mae ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru, mewn pob math o addysg – ysgolion, addysg bellach a galwedigaethol, gwaith ieuentid, addysg oedolion neu addysg uwch. Byddant nid yn unig yn datblygu eu sgiliau a'u profiad eu hunain, ond byddant hefyd yn llysgenhadon Cymru ar draws y byd a byddant yn atgyfnerthu'n neges fod Cymru'n edrych tuag allan, yn gydweithredol, ac yn agored i arloesedd addysgol.

Ac, yn gyfnewid, byddwn yn croesawu myfyrwyr, dysgwyr ac addysgwyr o bob rhan o'r byd i Gymru. Byddant yn cyfoethogi ein sectorau addysg ac ieuentid â dulliau a syniadau newydd, ac yn dod â hyd yn oed rhagor o amrywiaeth a diwylliant i ystafelloedd dosbarth a champysau yn ein gwlad ddwyieithog.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, bydd Taith hefyd yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu eu gallu a'u hyder i gynnal gweithgareddau rhyngwladol. Dan arweiniad Bwrdd Cynghori arbenigol sy'n darparu cyngor a throsolwg, byddwn yn gweithio'n frwd gyda sefydliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn Taith, rhaglen sydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer Cymru ac sy'n gydlynol o ran ei dull strategol ar draws sectorau.

Bydd y rhaglen bedair blynedd hon, sydd â chyllid o £65 miliwn gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys cyfnewidiadau rhyngwladol ar gyfer dysgwyr, gwirfoddolwyr, ymchwilwyr a staff ar draws y sectorau addysg ac ieuentid. Bydd hyd y cyfnewidiadau hyn yn amrywio o rai dyddiau, i flwyddyn.

Byddwn yn gwahodd sefydliadau i wneud cais am gyllid er mwyn gwireddu'r weledigaeth gyffrous hon. Bydd y cyrff trefnu sy'n gysylltiedig â Taith ac sy'n rhan o'r sectorau ysgolion, addysg bellach a galwedigaethol, addysg ieuentid ac addysg oedolion, yn adnodd ychwanegol er mwyn helpu sefydliadau i gymryd rhan yn y rhaglen hon.

Ein nodau

Mae gennym bum prif amcan ar gyfer Taith:

1. Cyflwyno rhaglen gynhwysol, Cymru-gyfan er mwyn cael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn cyfnewidiadau rhyngwladol; hynny er mwyn, ehangu gorwelion a hyder pobl ifanc, dysgwyr a staff ar bob lefel yng Nghymru, rhoi cyfleoedd sy'n-gwella-bywyd iddynt, ac er mwyn eu cefnogi i fod yn uchelgeisiol ac yn ddysgwyr galluog trwy gydol eu bywydau.
2. Hyrwyddo cydweithio rhwng sefydliadau Cymreig a rhyngwladol; cydweithio sydd yn galluogi cyfnewidiadau dysgu dwy-ffordd, yn rhoi budd i bawb sy'n gysylltiedig, meithrin cysylltiadau

rhyngwladol, a chefnogi'r sectorau addysg, gan gynnwys gwaith ieuenctid ac addysg oedolion.

3. Annog gweithgareddau uchelgeisiol, arloesol a chreadigol o'r radd flaenaf ym maes cyfnewidiadau addysg rhyngwladol a chydweithio.
4. Codi proffil rhyngwladol Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang, sydd wedi ymrwymo i adeiladu ar ei hetifeddiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol.
5. Helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trawsnewid ymgysylltu rhyngwladol, ac o ran datblygu rhagoriaeth yn y sectorau addysg rhyngwladol ac ieuenctid, trwy gamau cynaliadwy sydd yn rhoi budd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Ein hymrwymiaidau trawsbynciol

Gan ein bod am i Taith roi budd i bawb sy'n gysylltiedig, a rhoi budd i'r gymuned ehangach, rydym wedi ymrwymo i:

- gwella mynediad i bobl ag anabledau, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a phobl o gefndiroedd difreintiedig;
- hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan sy'n ymweld â Chymru yn ogystal ag arddangos Cymru i'r Byd;
- annog teithio cynaliadwy yn unol ag ymrwymiaidau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Y manteision a sut y byddwn yn eu mesur

Disgwylwn i'r rhaglen sicrhau amrywiaeth o fanteision i unigolion, sefydliadau a Chymru gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella sgiliau ieithyddol a digidol dysgwyr; gwella eu cyflogadwyedd, ymwybyddiaeth rhyngddiwylliannol a rhagolygon gyrfa; cefnogi dysgwyr i feithrin hunan-rymuso, hunan-barch a chymhelliant ynddynt eu hunain, yn ogystal â meithrin eu hymdeimlad o fenter ac entrepreneuriaeth.
- Gwella addysgu, hyfforddiant, ymchwil a sgiliau proffesiynol staff; cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a gyrfaol; gwella dealltwriaeth o amrywiaeth gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol, a'u hymatebion iddynt, a'r cysylltiadau rhwng addysg ffurfiol ac addysg anffurfiol.
- Gwella enw da a statws rhyngwladol sefydliadau; gwella addysgu a dysgu; cynyddu gallu a gwybodaeth er mwyn cymryd rhan mewn rhaglenni rhyngwladol; cymell recriwtio myfyrwyr, a phartneriaethau a chysylltiadau ymchwil newydd.

Gan weithio gyda'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid, byddwn yn datblygu dulliau monitro a gwerthuso sy'n asesu gwerth y rhaglen ac yn gwella ein dealltwriaeth o effeithiau cyfnewidiadau dysgu rhyngwladol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod cyfres o dargedau lefel uchel inni. Ynghyd â thargedau monitro cyfranogiad gan grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd, bydd y rhain yn sail i'n monitro rheolaidd. Y targedau lefel uchel yw:

- 15,000 o gyfranogwyr o Gymru erbyn diwedd Awst 2026
- 10,000 o gyfranogwyr o Gymru erbyn diwedd Awst 2026
- Sefydlu 50 o bartneriaethau amlflwydd erbyn diwedd Awst 2024
- 40 o wledydd yn cymryd rhan erbyn diwedd Awst 2024

Sut gall eich sefydliad gymryd rhan?

Bydd sefydliadau yng Nghymru yn cael eu gwahodd i wneud cais am gyllid trwy raglen reolaidd o alwadau am geisiadau. Bydd y galwadau hyn yn:

- cefnogi cyfnewidfeydd rhyngwladol ar draws y sector addysg cyfan yng Nghymru, gan gynnwys ieuencid sefydliadau gwaith ieuencid ac addysg oedolion;
- helpu teithiau cyfnewid dwy ffordd gyda phartneriaid rhyngwladol ar gyfer astudio, ymchwil, lleoliadau gwaith neu wirfoddoli yng Nghymru, sydd wedi'u darparu trwy'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghymru;
- ariannu sefydliadau dros gyfnodau amrywiol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer dyfarniadau amlflwydd;
- cefnogi cyfnewidiadau hyblyg, gan gynnwys cyfnewidiadau tymor byr, rhithwir a chyfunol;
- canolbwyntio ar gynnwys rhagor o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chefnidiroedd difreintiedig;
- meithrin capasiti yn sectorau addysg Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngwladol;
- hyrwyddo cydweithio ar draws, a rhwng y sector addysg yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Y gweithgareddau y byddwn yn eu cefnogi

Byddwn yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau a gweithgareddau sy'n:

- Darparu cyfleoedd byd-eang i bobl ifanc a dysgwyr trwy astudio rhyngwladol, hyfforddiant, gwirfoddoli neu leoliadau gwaith.
- Galluogi cyfleoedd datblygiad proffesiynol byd-eang i staff.
- Cynyddu gallu sefydliadau Cymreig i gynnal cyfnewidiadau rhyngwladol a datblygu'r strwythurau, y sylfaen wybodaeth a'r profiad i gefnogi twf cyfleoedd rhyngwladol.
- Cefnogi cydweithredu rhwng sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru â'u partneriaid rhyngwladol er mwyn cyflwyno prosiectau arloesol sy'n rhannu arfer da a dysgu yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r rhaglen hefyd yn darparu o ran ariannu cam 3 o fenter Cymru Fyd-eang. Trwy ddod â'r rhaglenni hyn ynghyd, bydd Taith yn gallu cefnogi Cymru Fyd-eang yn ei chenhadaeth i ddarparu cymorth strategol i sector Addysg Drydyddol Cymru a hynny er mwyn datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau mewn gwledydd blaenoriaeth, ac ehangu enw da Cymru o ran bod yn gyrchfan addysg rhyngwladol, gan gynyddu'i chyfran o'r farchnad dan sylw.

Cysylltwch â ni

I gael rhagor o wybodaeth am raglen Taith a chael gwybod sut y gallech chi neu eich sefydliad gymryd rhan, cysylltwch â ni drwy ebostio TaithEnquiries@caerdydd.ac.uk